

## Microlenyddiaeth

### Trosolwg

---

Bydd y dysgwyr yn edrych ar enghreifftiau o fathau gwahanol o ficrolenyddiaeth ac yn rhoi cynnig ar ysgrifennu creadigol o fewn cyfyngiadau cryno. Yn benodol, byddant:

- yn ystyried yr hyn y maent yn ei wybod am farddoniaeth ar Twitter
- yn darllen ac edrych ar enghreifftiau o 'Drydargerddi', cerddi 'Haicw' a cherddi 'Traicw'
- yn edrych ar ffenomen Twitter fel safle cyfryngau cymdeithasol ac yn ystyried ystadegau byd-eang
- yn creu darn gwreiddiol o 'Drydaryddiaeth' ar y cyd fel dosbarth cyfan

### Cyfoethogi

---

Cyfleoedd i gydweithio â beirdd, awduron a defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

---

Dyma brif rannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol y mae'r gweithgaredd cyfoethog hwn yn ymdrin â nhw:

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh)

Llythrennedd Digidol

Saesneg

Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

Mathemateg

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

## Adnoddau sy'n cael eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

Adnodd 1: Enghreifftiau o gerddi 'Haicw' a 'Thrydargerddi.'

Adnodd 2: Templed ar gyfer 'Trydargerdd'

Adnodd 3: Templed ar gyfer cerdd 'Traicw'

Adnodd 4: Twitter – Ystadegau'r cwmni

Adnodd 5: Twitter – Cyfrifon mwyaf poblogaidd

## Adnoddau y mae angen sicrhau eu bod ar gael

Cyfrifiadur a mynediad i'r rhyngwrwyd

## Paratoi

Sicrhewch eich bod wedi argraffu digon o daflenni adnoddau ar gyfer eich dosbarth. Er mwyn i'r dysgwyr roi eu 'Trydargerddi' a'u cerddi 'Traicw' ar Twitter, bydd angen i chi gael cyfrif gweithredol wedi'i gofrestru. Os nad oes cyfrif gan eich ysgol neu adran yn barod, gallwch greu cyfrif am ddim drwy'r ddolen ganlynol: <https://twitter.com/?lang=en-gb>.

| Tasg 1: Beth yw 'trydargerdd'?  | Cydweithredu ac Adnoddau  | Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh  |
|---|---|---|
| Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried a thrafod beth yw 'trydargerdd' neu gerdd 'traicw' a rhannu eu syniadau. Rhowch enghreifftiau o 'drydargerddi' (Adnodd 1) i'r dysgwyr mewn parau. Gwahoddwch nhw i ddarllen y cerddi ac ystyried y cwestiynau isod, gan roi rhesymau dros eu hatebion. | Gweithiwch gyda bardd i gael mewnbyn arbenigol ar greu barddoniaeth mewn fformatau gwahanol.<br><a href="http://www.literaturewales.org/writers-of-wales/">http://www.literaturewales.org/writers-of-wales/</a> | <b>Llythrennedd</b><br><b>Llafaredd</b><br>LLS2: cyflwyno syniadau<br>LLL1: ymateb i eraill<br>LLG3: gwranddo ar ddadleuon a'u nodi<br>LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau<br>LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen |

|   |  |   |
|---|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Pa un yw eich hoff gerdd?</li> <li>○ Beth sy'n wahanol am bob un o'r cerddi hyn?</li> <li>○ Beth sy'n gyffredin rhwng y cerddi?</li> <li>○ A all ysgrifennu'n fwy cryno fod yn fwy pwerus? (e.e. mae pennawd papur newydd fel arfer yn fwy pwerus na'r stori y mae'n ei disgrifio.)</li> <li>○ Ydych chi'n meddwl fod defnyddio 140 o nodau (llythrennau a bylchau) mewn cerdd yn cyfyngu ar greadigrwydd neu'n annog mwy o greadigrwydd?</li> <li>○ A wnaethoch chi fwynhau darllen cerddi byrion?</li> </ul> <p>Math poblogaidd o farddoniaeth sydd wedi ei hysbrydoli gan safle rhwydweithio cymdeithasol Twitter yw 'trydargerdd'. Mae defnyddwyr yn diweddarau eu statws neu'n rhoi 'trydariadau' a hynny wedi ei gyfyngu i 140 o nodau. Gallant greu cerddi gwreiddiol mewn trydariadau, a thrwy hynny, greu 'Trydargerdd'. Ceisiwch annog y dysgwyr i ymchwilio i drydargerdd (#poetweet) i ddod o hyd i gerddi gwreiddiol a'u darllen.</p> | <p>Darllenwch am boblogrwydd cynyddol trydar barddoniaeth neu drydariadau barddonol yma</p> <p><a href="http://www.independent.co.uk/arts-entertainment/books/features/twihaiku-micropoetry-the-rise-of-twitter-poetry-8711637.html">http://www.independent.co.uk/arts-entertainment/books/features/twihaiku-micropoetry-the-rise-of-twitter-poetry-8711637.html</a></p> | <p><b>Darllen</b></p> <p>DS2: gwneud synnwyr o destun<br/>DS5: ystod o strategaethau darllen<br/>DS8: dewis testunau ar y sgrin<br/>DD1: darllen testunau newydd<br/>DD3: canfod a defnyddio gwybodaeth<br/>DD4: dehongli ystyr<br/>DD5: cymharu testunau<br/>DYD3: cydgasglu, crynhoi a syntheseiddio<br/>DYD4: canfod rhagfarn<br/>DYD5: safbwyntiau gwahanol<br/>DYD6: gwerthuso cynnwys</p> |
|---|--|---|

|   |  |   |
|---|--|---|
| <p><b>Tasg 2: Ysgrifennwch eich 'trydargerdd' eich hun</b></p> <p>YMCHWILIWCH i syniadau am bynciau y gallech seilio eich 'trydargerdd' arnynt a'u rhannu. Meddyliwch am eiriau allweddol a fformat. Gallai eich 'trydargerdd' sôn am hoff lyfr, ffilm neu gyfres deledu. Gallech ddewis ysgrifennu cerdd 'traicw' ysgafn, hwyliog neu un drist, ddifrifol.</p> | <p><b>Cydweithredu ac Adnoddau</b></p> <p>Gweithiwch gyda bardd i gael mewnbyn arbenigol ar greu barddoniaeth mewn fformatau gwahanol.</p> | <p><b>Llwybrau cynnydd posibl y FFLIRh</b></p> <p><b>Llythrennedd</b><br/><b>Llafaredd</b><br/>LLS2: cyflwyno syniadau<br/>LLG1: ymateb i eraill<br/>LLG3: gwranddo ar ddadleuon a'u nodi</p> |
|---|--|---|

- Pa bynciau allech chi ysgrifennu amdanyn nhw?
- Pa bwnc fyddwch chi'n ei ddewis?
- Ydy cael eich cyfyngu i 140 o nodau yn beth da neu'n beth drwg? Pam rydych chi'n credu hynny?

Mae 'trydargerdd' a 'traicw' yn eiriau a grëwyd drwy gyfuno dau air sy'n bodoli eisoes i wneud un gair newydd. Pa eiriau sydd wedi'u cynnwys yn y ddwy enghraifft hyn? Allwch chi greu eich geiriau newydd eich hunain yn y ffordd hon?

Gwnewch restr o ddeg o eiriau byrion ac yna, mewn parau, ceisiwch eu cyfuno i wneud geiriau newydd.

**YSGRIFENNU!** Edrychwch ar Adnodd 2 'Ysgrifennu trydargerdd' a cheisiwch greu 'trydargerdd' eich hun. Ysgrifennwch am y peth mwyaf cyffrous rydych wedi'i ddarllen neu'i weld yn ddiweddar.

**TRAFODWCH** ac ystyriwch y broses mewn parau:

- Am beth wnaethoch chi ysgrifennu?
- Pe heriau wnaethoch chi eu hwynebu wrth greu eich trydargerdd?
- Beth wnaethoch chi er mwyn datrys yr heriau hyn?
- Beth oeddech chi'n ei hoffi am gyfyngu eich hun i 140 o nodau? / Beth nad oeddech chi'n ei hoffi?

Rhowch gerddi'r dosbarth ar Twitter neu ar flog dosbarth neu dudalen o'r we.

Byddai cydweithio gydag awdur neu fardd sy'n cyflwyno eu gwaith yn bennaf trwy gyfryngau cymdeithasol yn fan cychwyn diddorol i'r dysgwyr.

<http://www.literaturewales.org/write-rs-of-wales/>

LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau  
LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen

### **Ysgrifennu**

YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol  
YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu  
YY4: ysgrifennu ar sgrin  
YY5: adolygu a gwella gwaith  
YS1: strwythurau ar gyfer ysgrifennu  
YS2: trefnu gwaith ysgrifennu  
YI1: iaith briodol  
YI2: geirfa amrywiol  
YG1: strwythurau brawddegau  
YG3: atalnodi  
YG4: strategaethau sillafu

| Tasg 3: Beth yw Haicw?  | Cydwethredu ac Adnoddau   | Llwybrau cynnydd posibl y FFLIRh  |
|---|---|---|
| <p>TRAFODWCH a rhannwch syniadau fel dosbarth ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Beth yw cerdd Haicw?</li> <li>○ Ydych chi wedi darllen unrhyw gerddi Haicw? Ble a phryd?</li> <li>○ Beth yw nodweddion cerdd Haicw?</li> </ul> <p>Ffurf hen iawn o farddoniaeth sy'n dod yn wreiddiol o Japan yw barddoniaeth Haicw. Mae'n gofyn am gynildeb, manylder a llawer o ddychymyg. Mae cerdd Haicw Japaneaidd draddodiadol yn cynnwys 3 llinell ac 17 sillaf, wedi'u trefnu'n 5/7/5 o sillafau. Yn aml, delweddau byd natur yw testun Haicw.</p> <p>Darllenwch enghreifftiau o gerddi Haicw ar Daflen Adnodd 1. Ewch ati i arbrofi ac YSGRIFENNU eich cerdd Haicw tair llinell eich hun gan gadw at y ffurf sillafau 5-7-5. Defnyddiwch bwnc o fyd natur fel testun.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Am ba agwedd o natur fyddwch chi'n ysgrifennu?</li> <li>○ Pa eiriau allweddol fyddwch chi'n eu cynnwys?</li> </ul> <p>Yn dilyn hyn ewch ati i FYFYRIO</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Beth oedd yn anodd ynglŷn ag ysgrifennu Haicw?</li> <li>○ A yw'n haws ysgrifennu cerddi hirach?</li> <li>○ Darllenwch gerddi Haicw eich gilydd a rhannwch ymatebion</li> </ul> | <p>Gweithiwch gyda bardd i gael mewnbwn arbenigol ar greu barddoniaeth mewn fformatau gwahanol.</p> <p><a href="http://www.literaturewales.org/writers-of-wales/">http://www.literaturewales.org/writers-of-wales/</a></p> <p>Gwrandewch ar y bardd, Nigel Jenkins, yn siarad â Roy Noble ar BBC Radio Wales ynglŷn â ffurf yr haicw a detholiad cenedlaethol cyntaf y wlad o farddoniaeth haicw 'Another Country' (Gomer 2011) yma <a href="https://www.youtube.com/watch?v=CeNf1e65rPs">https://www.youtube.com/watch?v=CeNf1e65rPs</a></p> | <p><b>Llythrennedd</b><br/><b>Llafaredd</b><br/>LLS2: cyflwyno syniadau<br/>LLG1: ymateb i eraill<br/>LLG3: gwrando ar ddadleuon a'u nodi<br/>LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau<br/>LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen</p> <p><b>Darllen</b><br/>DS2: strategaethau i ddeall testun<br/>DS5: ystod o strategaethau darllen<br/>DS8: dewis testunau ar y sgrin<br/>DD1: darllen testunau newydd<br/>DD3: canfod a defnyddio gwybodaeth<br/>DD4: dehongli ystyr<br/>DD5: cymharu testunau<br/>DYD3: cydgrynhoi, coladu, a syntheseiddio<br/>DYD4: canfod rhagfarn<br/>DYD5: safbwyntiau gwahanol<br/>DYD6: gwerthuso cynnwys</p> |

| Tasg 4: Creu 'traicw'   | Cydwethredu ac Adnoddau  | Llwybrau cynnydd posibl y FFLIRh  |
|---|--|---|
| <p>TRAFODWCH beth yw 'traicw' ac anogwch y myfyrwyr i rannu eu syniadau. Ymchwiliwch i #twaiku ar-lein er mwyn dod o hyd i gerddi gwreiddiol a'u darllen.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Beth yw 'traicw'?</li> <li>○ Pa nodweddion sy'n debygol o fod yn perthyn i gerdd 'traicw'?</li> <li>○ Pa un yw eich hoff gerdd 'traicw'? Pam mai honno rydych chi'n ei hoffi orau?</li> <li>○ Beth sy'n gyffredin rhwng y cerddi?</li> <li>○ Beth oedd yn wahanol rhwng y cerddi 'traicw'?</li> </ul> <p>Mewn grwpiau bach trafodwch syniadau ynglŷn â sut i greu 'traicw' (e.e. ystyriwch y pwnc y byddwch yn ysgrifennu amdano, geiriau allweddol i'w cynnwys a'r fformat).</p> <p>Rhowch gopi o'r daflen 'Ysgrifennu traicw' (Adnodd 3) i'r dysgwyr.</p> <p>Ar y diwedd, trafodwch y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Am ba bwnc wnaethoch chi ysgrifennu?</li> <li>○ Pa heriau wnaethoch chi eu hwynebu wrth greu eich traicw?</li> <li>○ Beth wnaethoch chi er mwyn goresgyn yr heriau hyn?</li> <li>○ Beth oeddech chi'n ei hoffi am gyfyngu eich hun i 140 o nodau?</li> </ul> <p>A oes modd rhoi'r cerddi ar Twitter neu ar flog</p> | <p>Gweithiwch gyda bardd i gael mewnbwn arbenigol ar greu barddoniaeth mewn fformatau gwahanol.</p> <p><a href="http://www.literaturewales.org/writers-of-wales/">http://www.literaturewales.org/writers-of-wales/</a></p> <p>Gwahoddwch swyddog marchnata o sefydliad celfyddydau lleol i mewn i siarad am ei ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, data ar gynulleidfaoedd a dulliau marchnata ar-lein effeithiol. Gallech ddefnyddio'r cyfle i ddatblygu ymgyrch ar gyfer digwyddiad yn y dyfodol y gallai'r dysgwyr helpu i'w hyrwyddo a, gobeithio, ei fynychu.</p> | <p><b>Llythrennedd</b><br/><b>Llafaredd</b></p> <p>LIS2: cyflwyno syniadau<br/>LLG1: ymateb i eraill<br/>LLG3: gwranddo ar ddadleuon a'u nodi<br/>LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau<br/>LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen</p> <p><b>Ysgrifennu</b><br/>YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol<br/>YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu<br/>YY4: ysgrifennu ar sgrin<br/>YY5: adolygu a gwella gwaith<br/>YS1: strwythurau ar gyfer ysgrifennu<br/>YS2: trefnu gwaith ysgrifennu<br/>YI1: iaith briodol<br/>YI2: geirfa amrywiol<br/>YI1: strwythurau brawddegau<br/>YG3: atalnodi<br/>YG4: strategaethau sillafu</p> |



|                          |  |  |
|--------------------------|--|--|
| dosbarth neu dudalen we? |  |  |
|--------------------------|--|--|

| Tasg 5: Ymchwilio i Twitter   | Cydweithredu ac Adnoddau  | Llwybrau Cynnydd Posibl y FfLIRh   |
|---|---|--|
| <p><b>TRAFODWCH</b> 'Beth rydym yn ei wybod am y gwasanaeth rhwydweithio cymdeithasol ar-lein 'Twitter'?'</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Beth yw 'Twitter'?</li> <li>○ Beth yw pwrpas defnyddio Twitter?</li> <li>○ Pwy sy'n defnyddio 'Twitter'? a pham?</li> <li>○ Ydych chi wedi anfon trydar erioed? Pryd? Pam?</li> <li>○ Sut mae 'neges drydar' yn edrych?</li> <li>○ Beth yw nodweddion 'neges drydar'?</li> </ul> <p><b>TREFNWCH DDADL</b> ar nodweddion cadarnhaol a negyddol Twitter – y gwasanaeth lle mae defnyddwyr yn gallu anfon a darllen negeseuon byr 140 o nodau, sef trydariadau.</p> <p><b>Ymchwiliwch a gwnewch nodiadau:</b> Gallech ystyried ymgyrchoedd Twitter llwyddiannus a rhai sydd heb fod mor llwyddiannus; sut y caiff y llwyfan ar-lein hwn ei ddefnyddio i farchnata a rhannu newyddion; sut mae cyfrifon ffug yn cael eu creu a'u defnyddio i ledaenu straeon a sut mae nifer o drydariadau difriol yn cael eu hysgrifennu am unigolion - pobl enwog, sêr y byd chwaraeon a gwleidyddion.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Pa ymgyrchoedd Twitter rydych chi'n gwybod amdanyn nhw?</li> <li>○ Pam y gallai Twitter fod yn beth da neu'n beth drwg yn eich barn chi?</li> <li>○ Pa enghreifftiau wyddoch chi amdanyn nhw lle mae Twitter wedi ei ddefnyddio'n negyddol? Beth ddigwyddodd?</li> <li>○ Mae rhywun sydd â chyfrif Twitter yn gallu ysgrifennu unrhyw beth – pa broblemau y gallai hyn ei achosi?</li> </ul> | <p>Gwahoddwch swyddog marchnata o sefydliad celfyddydau lleol i'r ysgol i siarad am sut maent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo eu digwyddiadau a datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer eu gwaith.</p> | <p><b>Llythrennedd</b><br/><b>Llafaredd</b><br/>LLS2: cyflwyno syniadau<br/>LLS4: Ymateb i heriau<br/>LLS5: Amddiffyn safbwynt<br/>LLG1: ymateb i eraill<br/>LLG3: gwrandao ar ddadleuon a'u nodi<br/>LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau<br/>LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen</p> <p><b>Darllen</b><br/>DS8: dewis testunau ar sgrin<br/>DD1: darllen testunau newydd<br/>DD3: canfod a defnyddio gwybodaeth<br/>DD4: dehongli ystyr<br/>DD5: cymharu testunau<br/>DYD3: cydgrynhoi, coladu, syntheseiddio<br/>DYD4: canfod rhagfarn<br/>DYD: safbwyntiau gwahanol<br/>DYD6: gwerthuso cynnwys</p> <p><b>Ysgrifennu</b><br/>YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol<br/>YY3: cynllunio ysgrifennu<br/>YY5: adolygu a gwella gwaith<br/>YS1: strwythurau ar gyfer ysgrifennu<br/>YS2: trefnu gwaith ysgrifennu<br/>YI1: iaith briodol</p> |

|  |                      |
|--|----------------------|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Yn eich barn chi, beth ddylai ddigwydd yn yr achosion hyn?</li> </ul> <p><b>Ysgrifennwch eich nodiadau ar bapur er mwyn helpu'r drafodaeth.</b></p> | Y12: geirfa amrywiol |
|--|----------------------|

| Tasg 6: Ystagedau Twitter   | Cydweithredu ac Adnoddau | Llwybrau Cynnydd Posibl y FfLIRh   |
|---|--------------------------|--|
| <p>YMCHWILIWCH i'r ystagedau diweddaraf am Twitter a'u trafod.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Faint o ddefnyddwyr sydd wedi eu cofrestru ar Twitter ledled y byd?</li> <li>○ Faint o drydariadau sy'n cael eu hanfon bob dydd?</li> <li>○ Faint o ddefnyddwyr Twitter newydd sy'n ymuno bob dydd?</li> <li>○ Faint o ymholiadau i beiriant chwilio Twitter sydd yna bob dydd?</li> <li>○ Pa ganran o ddefnyddwyr Twitter sy'n defnyddio eu ffôn i drydar?</li> </ul> <p>Mewn grwpiau bach, DADANSODDWCH a THRAFODWCH ystagedau'r cwmni yn Adnodd 4 sy'n ymwneud â Twitter.</p> <p>Gan bwy mae'r cyfrifon Twitter mwyaf poblogaidd yn eich barn chi? Ewch ati i goladu'r ymatebion a chytuno ar restr o'r pump uchaf.</p> <p>Darllenwch a thrafodwch y tabl data sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon Twitter mwyaf poblogaidd (Adnodd 5) a rhannwch ymatebion a syniadau.</p> |                          | <p><b>Llythrennedd</b></p> <p><b>Llafaredd</b></p> <p>LLS2: cyflwyno syniadau</p> <p>LLG1: ymateb i eraill</p> <p>LLG3: gwranddo ar ddadleuon a'u nodi</p> <p>LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau</p> <p>LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen</p> <p><b>Darllen</b></p> <p>DD3: canfod a defnyddio gwybodaeth</p> <p>DD4: dehongli ystyr</p> <p>DD5: cymharu testunau</p> <p>DYD3: cydgryhoi, coladu, a syntheseiddio</p> <p>DYD4: canfod rhagfarn</p> <p>DYD5: safbwyntiau gwahanol</p> <p>DYD6: gwerthuso cynnwys</p> <p><b>Rhifedd</b></p> <p><b>Datblygu ymresymu rhifyddol</b></p> <p>CA3.5 nodi gwybodaeth</p> <p>CA311: egluro canlyniadau</p> <p>CA312: cyflwyno canlyniadau</p> <p>CA316: dehongli graffiau</p> <p>CA318: dehongli atebion</p> <p>CA319: dod i gasgliadau</p> <p>CA320: cyfiawnhau atebion</p> <p>CA321: dehongli gwybodaeth</p> |



|  |  |  |
|--|--|--|
|  |  | <p>fathemategol</p> <p><b>Defnyddio sgiliau rhif</b></p> <p>Rh9: ffracsiynau, degolion a chanrannau</p> <p>Rh11: cymhareb a chyfrannedd</p> <p>Rh15: amcangyfrifon</p> <p><b>Defnyddio sgiliau data</b></p> <p>D4: cyflwyno data (graffiau a siartiau)</p> |
|--|--|--|

| Tasg 7: Creu Trydaryddiaeth neu fircolenyddiaeth wreiddiol   | Cydweithredu ac Adnoddau  | Llwybrau cynnydd y FfLIRh   |
|--|---|---|
| <p>TRAFODWCH beth yw ystyr y termau Trydaryddiaeth a microlenyddiaeth yn eich barn chi? Pa ddau air mae'r termau hyn yn eu cyfuno?</p> <p>(cyfuniad o'r geiriau 'trydar' a 'llyenyddiaeth' a 'micro' a 'llyenyddiaeth'). Gellid ystyried y rhain fel termau ambarél ar gyfer y mathau gwahanol o ddulliau ysgrifennu cryno (haicw, traicw, trydariad) y mae'r gyfres hon o weithgareddau wedi ymchwilio iddyn nhw.</p> <p>Mewn grwpiau, YSGRIFENNWCH ddarn o fircolenyddiaeth wreiddiol gyda'ch gilydd. Gosodwch bamedrau clir iawn i chi eich hunain o ran hyd – naill ai cerdd 140 o nodau fel trydariad neu gerdd haicw ar ffurf sillafau 5-7-5. Defnyddiwch weithgaredd mat bwrdd, er enghraifft - efallai y gall pob grŵp yn awgrymu syniad ac yn ei 'werthu' i'r dosbarth.</p> <p>Trafodwch sut i benderfynu ar ddull teg o ddewis un o'r syniadau. Er enghraifft, efallai y bydd y dysgwyr yn defnyddio Pleidlais Dotiau Dwbl</p> | <p>Gallech weithio gydag awdur sydd â phrofiad o greu darnau o waith ar y cyd.</p> <p><a href="http://www.literaturewales.org/write-rs-of-wales/">http://www.literaturewales.org/write-rs-of-wales/</a></p> <p><b>Y Reduced Shakespeare Company –</b> cwmni comedi tri dyn sy'n dewis testunau hir, difrifol ac yn eu troi yn gomediau byr, craff.</p> <p><a href="http://www.reducedshakespeare.com/">http://www.reducedshakespeare.com/</a></p> | <p><b>Llythrennedd</b></p> <p><b>Llafaredd</b></p> <p>LLS2: cyflwyno syniadau</p> <p>LLG1: ymateb i eraill</p> <p>LLG3: gwrandao ar ddadleuon a'u nodi</p> <p>LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau</p> <p>LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen</p> <p><b>Ysgrifennu</b></p> <p>YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol</p> <p>YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu</p> <p>YY4: ysgrifennu ar sgrin</p> <p>YY5: adolygu a gwella gwaith</p> <p>YS1: strwythurau ar gyfer ysgrifennu</p> <p>YS2: trefnu gwaith ysgrifennu</p> <p>YI1: iaith briodol</p> <p>YI2: geirfa amrywiol</p> <p>YG1: strwythurau brawddegau</p> <p>YG3: atalnodi</p> |

([inset hyperlink](#)) i wneud dewis gwybodus.

Penderfynwch sut y byddwch yn cyd-ysgrifennu eich trydariadau/cerddi haicw llenyddol. Dyma rai syniadau:

- pob aelod o'r grŵp yn ysgrifennu un llinell o gerdd haicw
- y grŵp yn cydysgrifennu stori fer iawn, gyda phawb yn cyfrannu brawddeg yr un
- Fel grŵp, ysgrifennu adolygiad byr o lyfr/ffilm/sioe/gêm bêl-droed/rhaglen deledu
- Ar y cyd, ysgrifennu crynodeb byr iawn o lyfr rydych wedi'i astudio gyda'ch gilydd yn y dosbarth
- crynhoi cyfnod mewn hanes mewn 140 o nodau neu ysgrifennu ysgrif goffa person enwog neu adrodd y newyddion ar ffurf cerdd traicw.
- Ysgrifennu araith drydar ar bwnc o'ch dewis
- Ysgrifennu ymgyrch drydar am rywbeth sy'n bwysig ym marn eich grŵp (e.e. y Gymraeg/rheolau'r ysgol/aelodaeth o Ewrop)
- Ysgrifennu is-bennawd yn hyrwyddo eich ysgol neu arwyddair eich ysgol ar ffurf haicw.

YSTYRIWCH gywair eich gwaith a'r effaith rydych am iddo ei chael ar eich darllenydd – a fydd yn ffraeth? twymgalon? teimladwy? difrifol? cynhyrfus? argyhoeddiadol?

Nawr **YSGRIFENNWCH!**

Cymerwch risgiau wrth ysgrifennu er mwyn gweld beth allwch chi ei greu fel grŵp. Anaml y bydd awduron yn creu eu darn terfynol yn y drafft cyntaf.

**TRAFODWCH** bob gair a ddefnyddiwch – ni allwch wastraffu unrhyw eiriau

YG4: strategaethau sillafu

gan fod gennych gyn lleied i'w defnyddio. Gall y ffaith bod gennych gyfyngiad o ran nifer y geiriau eich gwneud yn fwy dyfeisgar. **RHANNWCH** eich microlenyddiaeth gyda gweddill y dosbarth.

## Gweithgareddau eraill a awgrymir

- Ymchwiliwch i wahanol fathau o 'Drydaryddiaeth' sy'n cael eu rhoi'n gyson ar Twitter (e.e. straeon byr micro a gwirebau). Gall dysgwyr gynhyrchu a rhoi eu gwaith creadigol eu hunain ar Twitter.
- Ystyriwch yr effaith y mae ysgrifennu ar y cyfryngau cymdeithasol yn gallu ei chael ar safonau ysgrifennu yn gyffredinol, er enghraifft, sillafu a gramadeg. Gellid rhannu'r dosbarth a gofyn i bob hanner ddadlau o blaid ac yn erbyn.
- Ymchwiliwch i broblemau lleol o ddiddordeb, er enghraifft, y bwriad i gau llyfrgell neu ganolfan hamdden leol a defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol i greu ymgyrch gefnogi.

## Asesu mewn perthynas â'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd

Gallai'r dysgwyr arddangos nifer o elfennau ac agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wrth iddynt wneud y gweithgaredd hwn. Rhestrir y prif feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y tablau isod.

| Llythrennedd         |  |        |  |
|----------------------|--|--------|--|
| Llinyn               | Elfen                                      | Agwedd |  |
| Llafaredd ar draws y | Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | Siarad |  |

|                                 |                                       |  |  |
|---------------------------------|---------------------------------------|--|--|
| cwricwlwm                       |                                       | Gwranddo                                   |  |
|                                 |                                       | Cydweithio a thrafod                       |  |
| Darllen ar draws y cwricwlwm    | Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth | Strategaethau darllen                      |  |
|                                 |                                       | Darllen a deall                            |  |
|                                 | Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd          | Ymateb a dadnsoddi                         |  |
| Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm | Trefnu syniadau a gwybodaeth          | Ystyr, dibenion, darllenwyr                |  |
|                                 |                                       | Strwythur a threfn                         |  |
|                                 | Ysgrifennu'n gywir                    | Iaith                                      |  |
|                                 |                                       | Cystrawen; Atalnodi; Sillafu; Llawysgrifen |  |

| Rhifedd                     |  |  |
|-----------------------------|--|--|
| Llinyn                      | Elfen  |  |
| Datblygu ymresymu rhifyddol | Adnabod prosesau a chysylltiadau   |  |
|                             | Cynrychioli a chyfathrebu  |  |
|                             | Adolygu  |  |
| Defnyddio sgiliau rhif      | Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau                      |  |
|                             | Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb                             |  |
|                             | Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig                    |  |
|                             | Amcangyfrif a gwirio   |  |
|                             | Rheoli arian   |  |
| Defnyddio sgiliau mesur     | Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd  |  |
|                             | Amser  |  |
|                             | Tymheredd  |  |
|                             | Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle                                      |  |
| Defnyddio sgiliau data      | Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau |  |